# Ymchwil, Datblygu & Chynhyrchu ar Gyfer Achos Busnes

## CALON: CANOLBWYNT DIWYLLIANNOL AR GYFER CAERFFILI



Cleient:
**Cynefin Caerffili CIC**

# Ymchwil, datblygu a chynhyrchu Achos Busnes ar gyfer Calon : Canolbwynt diwylliannol ar gyfer Caerffili

Cleient: Cynefin Caerffili CIC

**Cyllid: Oddeutu £30,000 (heb gynnwys TAW)**

**Gwerth disgwyliedig y Cynllun Calon Terfynol: £10m-£15m heb taw**



# Crynodeb Gweithredo

Dyma gyfle prin i helpu i lunio prosiect o'r camau cynnar – prosiect sydd â chefnogaeth wirioneddol gan y gymuned, cefnogaeth strategol gref a'r potensial i drawsnewid un o ganolfannau trefol mwyaf adnabyddus Cymru.

Rydym yn chwilio am ymgynghorydd neu dîm o ymgynghorwyr a all helpu i lunio'r prosiect gwerth £10m-£15m o'r camau cynnar. Mae Calon yn brosiect uchelgeisiol dan arweiniad y gymuned i greu calon ddiwylliannol newydd i Gaerffili. Drwy roi bywyd newydd i Neuadd y Gweithwyr Caerffili (adeilad hanesyddol rhestredig Gradd II) a'r ardal gyfagos drwy adferiad gofalus ac ailddatblygu meddylgar, bydd yn creu lle lle mae diwylliant, creadigrwydd, menter a bywyd bob dydd yn dod atynt eu hunain. Yn fwy nag adeilad yn unig, mae Calon yn gyfle i ailgysylltu pobl â chanol eu tref, dathlu hunaniaeth Caerffili a chreu canolbwynt parhaol ar gyfer bywyd cymunedol.

Mae gan y prosiect hwn gefnogaeth wirioneddol gan y gymuned, cefnogaeth strategol gref a'r potensial i drawsnewid un o ganolfannau trefol mwyaf adnabyddus Cymru.

- Y gyllideb ar gyfer y comisiwn hwn yw £30,000 heb gynnwys TAW
- Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw 14 Medi 2026
- Y dyddiad cau ar gyfer cyflawni yw 29 Ionawr 2027

Cynefin Caerffili CIC
20 Castle St,
Caerphilly
CF83 1NY
info@cynefincaerffili.org

# Cynnwys


1. Gweledigaeth y Cynllun ........ 5

2. Y Comisiwn ........ 7

3. Cwmpas y Gwaith ........ 10

4. Y Disgwyliadau ........ 14

5. Gofynion ar gyfer Ymgynghorwyr a Dull Gweithredu 16

6. Trefniadau Gwaith ........ 18

7. Amserlen y Prosiect a Gofynion Cyflwyno ........ 20

8. Proses Asesu ........ 22

# 1. Gweledigaeth y Cynllun

## Calon – Calon Ddiwylliannol Caerffili

Mae Calon yn brosiect cymunedol uchelgeisiol i greu canolbwynt diwylliannol newydd i Gaerffili. Bwriedir dod â bywyd newydd i adeilad hanesyddol Neuadd y Gweithwyr, sydd wedi'i gofrestru'n Gradd II, ynghyd a'r ardal o'i gwmpas, trwy waith adfer gofalus ac ailddatblygu meddylgar. Bwriedir creu gofod lle mae diwylliant, creadigrwydd, menter a bywyd bob dydd yn dod at ei gilydd. Yn fwy nag adeilad, mae Calon yn gyfle i ailgysylltu pobl â chanol eu tref, dathlu hunaniaeth Caerffili a chreu ffocws parhaol ar fywyd cymunedol.

Mae Cynefin yn credu bod yn rhaid i'r cynllun hwn gael ei ddatblygu gyda phobl leol yn hytrach nag ar eu cyfer. Mae ein dull gweithredu yn cyfuno meysydd diwylliant, adfer, adfywio a chyfranogiad, ac rydym yn chwilio am ymgynghorydd sy'n rhannu'r gwerthoedd hynny wrth ddod â'r meddylfryd strategol, gweledigaeth fasnachol a'r manylder technegol sydd eu hangen i droi gweledigaeth a rennir yn Achos Busnes cymhellol a chynhwysfawr ac yn un sy'n bodloni gofynion cynllun Cam 1 RIBA. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio i sicrhau buddsoddiad i fireinio a phrofi'r Achos Busnes ymhellach wrth ymgymryd â gwaith ar gyfer Cam 2 RIBA.

Mae hwn yn gyfle prin i helpu llunio cynllun o gam cynnar- un sydd â chefnogaeth gymunedol wirioneddol, cefnogaeth strategol gref ac sydd a'r potensial i drawsnewid un o ganol trefi mwyaf adnabyddus Cymru.

Wedi'i leoli mewn safle amlwg gyferbyn â Chastell Caerffili, mae gan Calon y potensial i ddod yn gyrchfan ddiwylliannol nodedig. Drwy waith adfer ac ailddatblygu sensitif o adeilad rhestredig Gradd II, Neuadd y Gweithwyr Caerffili, ynghyd a'r posibilrwydd o ail-bwrpasu/datblygu'r tir/adeiladau cyfagos gan gynnwys y Ganolfan Waith bresennol, bydd adfer ffabrig a chymeriad hanesyddol y Neuadd wrth wraidd y prosiect, gan sicrhau bod ei threftadaeth yn cael ei dathlu a'i diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol tra'n ei galluogi i wasanaethu

cenhedlaeth newydd o ddefnyddiau. Bydd Calon yn ganolfan annibynnol a chynaliadwy sy'n dathlu hunaniaeth Caerffili, yn cefnogi twf y dref yn y dyfodol ac yn cyfrannu at adfywio'r porth gogleddol.

Wrth i Gaerffili barhau i dyfu, gan gynnwys drwy ddatblygiad tai sylweddol a demograffeg sy'n newid, mae cyfle i greu canol tref fwy bywiog a chynhwysol lle gall pobl gyfarfod, creu, dysgu a chymryd rhan.

Bydd Calon yn dod â'r meysydd gweithgaredd hyn at ei gilydd:


- Perfformiad byw: theatr, cerddoriaeth, comedi a digwyddiadau eraill.
- Sinema, Celfyddyd Weledol a chyfryngau digidol.
- Datblygu Talent: Dysgu, Hyfforddi a datblygu sgiliau.
- Cyfranogiad: Ymgysylltu â'r gymuned a gweithfannau creadigol.
- Bwyd, Diod a gofodau cymdeithasu.
- Cyfleodd menter megis llogi, cyd-weithio a chwmnïau preswyl.

Bydd y prosiect wedi'i gynllunio o amgylch creu model gweithredu cynaliadwy a gwydn, gan gyfuno ffrydiau incwm amrywiol, menter greadigol, partneriaethau strategol a gweithgarwch masnachol priodol i gefnogi ei wydnwch hirdymor. Bydd yn archwilio dulliau arloesol o adeiladu economi gynhwysol, gylchol yng Nghaerffili, gan greu cyfleoedd i bobl leol, busnesau ac ymarferwyr creadigol. Bydd hygyrchedd, cynaliadwyedd amgylcheddol a dylunio effeithlon o ran adnoddau yn cael eu hymgorffori trwy gydol y datblygiad, gan gryfhau gwytnwch yr adeilad yn y dyfodol a'i effaith gymdeithasol, ddiwylliannol ac economaidd ehangach.

Yn y bôn, bydd Calon yn lleoliad croesawgar, chwareus lle mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn - lle i ymgynnull, creu, cysylltu â phrofi diwylliant.

## 2. Y Comisiwn




Mae Cynefin Caerffili CIC yn ceisio penodi ymgynghorydd profiadol neu dîm ymgynghorol i brofi dichonoldeb y cynlluna datblygu'r achosion strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaethol, a fydd wedi'u halinio'n fras â Model Pum Achos Trysorlys y DU ar gyfer Amlinellu Achos Busnes cyfatebol neu gynnig amgen i ffurfio sail cyllid pellach a datblygiad prosiect.

Bydd y tîm a’i penodir yn cael cyfle i ymgysylltu â gweithgareddau sy'n cael eu cynnal yn Neuadd y Gweithwyr Caerffili ac yn Y Banc, gofod canol tref dros dro Cynefin, lle mae syniadau ynghylch rhaglennu, cyfranogiad ac ymgysylltu â'r gymuned eisoes yn cael eu profi yn ymarferol. Yn hytrach na dechrau gyda thudalen wag o bapur, byddwch yn ymuno â phrosiect gyda momentwm go iawn, cysylltiadau lleol cryf a chymuned sy'n siapio ei dyfodol yn weithredol.

**Pam fod y comisiwn hwn yn bwysig**

Bydd yr Achos Busnes hwn yn siapio cyfeiriad Calon yn y dyfodol, yn rhoi hyder i gyllidwyr a phartneriaid, a thrwy ddatblygu at Gam 1 RIBA, bydd yn gosod y sylfeini ar gyfer cyrchfan ddiwylliannol newydd yng nghalon Caerffili.

Mae'r comisiwn hwn yn rhan o'r uchelgais adfywio ehangach ar gyfer canol tref Caerffili ac mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys Cynllun Creu Lleoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2035 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Bydd y comisiwn yn darparu'r ymchwil, y dystiolaeth, y dadansoddiad a'r cyfeiriad strategol sydd eu hangen i symud Calon o weledigaeth uchelgeisiol i brosiect grymus, buddsoddadwy y gellid ei wireddu.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae Cynefin yn datblygu **strategaeth rhaglen greadigol** a **strategaeth codi arian**, gan gynnwys cais am gyllid datblygu i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'r ffrydiau gwaith hyn y tu allan i gwmpas y comisiwn hwn, er bod croeso i ymgynghorwyr amlinellu sut y gallent eu cefnogi pe bai adnoddau ychwanegol ar gael.

Yn amodol ar sicrhau cyllid datblygu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, bydd y prosiect yn symud ymlaen i'w gam nesaf megis achos

busnes mireinio gan gynnwys crynhoad tir, datblygu dyluniadau hyd at Gam 2 RIBA, gwaith technegol a dichonoldeb pellach, a datblygiad prosiect parhaus.

Ariennir y rhaglen bresennol gan Gronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, gyda chefnogaeth ychwanegol ar gyfer rhaglenni diwylliannol gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Ffilm Cymru Wales.

Mae hwn yn gyfle i helpu llunio ased diwylliannol arwyddocaol ar gyfer Caerffili. Rydym yn chwilio am ymgynghorydd neu dîm sy'n gallu cyfuno meddwl strategol, dealltwriaeth fasnachol ac ymgysylltiad cymunedol ystyrlon i sicrhau bod Calon yn dod yn rhan hyfyw, gynaliadwy a gwerthfawr o ddyfodol y dref.

Rydym yn croesawu meddwl newydd, parodrwydd i herio rhagdybiaethau lle bo hynny'n briodol, ac ymagwedd gydweithredol at adeiladu'r achos cryfaf posibl dros fuddsoddi.

# 3. Cwmpas y Gwaith



## Trosolwg

Rydym yn edrych i ddatblygu achos busnes sy'n creu cynnig realistig gyda thystiolaeth gadarn ar gyfer dyfodol Calon fel ailddatblygiad diwylliannol uchelgeisiol £10m-£15m yng nghanol y dref. A oes galw? Beth yw'r model gweithredu cryfaf? Sut y dylid cyflawni'r prosiect? A sut y gall fod yn wydn yn ariannol wrth aros yn driw i'w bwrpas cymunedol?

Byddwch yn datblygu Achos Busnes cynhwysfawr sy'n cyd-fynd yn fras â Model Pum Achos Trysorlys y DU, sy'n sefydlu'r achos strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaethol ar gyfer cynnig cyfatebol neu gynnig amgen Calon i fod yn sail i gyllid pellach a datblygiad prosiectau.

Bydd y gwaith yn adeiladu ar weithgarwch presennol a gynhaliwyd gan Cynefin Caerffili ac yn darparu'r dystiolaeth, y dadansoddiad a'r argymhellion sydd eu hangen i gefnogi cam nesaf y datblygiad, gan gynnwys dilyniant dylunio a cheisiadau am gyllid cyfalaf a gweithredol yn y dyfodol.

Nid ydym yn chwilio am ymchwil er mwyn ei hun. Mae angen tystiolaeth a mewnwelediad arnom er mwyn llywio penderfyniadau ac i gryfhau'r achos dros fuddsoddi. Dylid defnyddio'r dystiolaeth bresennol lle bynnag y bo modd, gydag ymchwil newydd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â bylchau gwirioneddol a darparu gwerth clir i'r Achos Busnes.

Cydnabyddwn nad oes un ffordd o ddatblygu achos busnes llwyddiannus. Rydym yn chwilio am ymgynghorwyr sy'n gallu cymhwyso barn gadarn, ymchwil gymesur a meddwl creadigol i ddatblygu'r achos cryfaf posibl dros fuddsoddi.

## Proses Weithredu

### 3.1 Datblygu Gweledigaeth

Bydd yr ymgynghorydd yn gweithio gyda Cynefin Caerffili i adolygu a mireinio'r weledigaeth, yr amcanion a'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer Calon, gan brofi'r rhagdybiaethau presennol lle bo hynny'n briodol a gwneud argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dylai'r gwaith hwn sicrhau bod y prosiect yn parhau i fod yn uchelgeisiol ond yn un y gellid ei gyflawni, ac sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, ac mae ganddo ganlyniadau a mesurau llwyddiant clir.

### 3.2 Ymchwil a Gwerthuso'r Farchnad

Trwy ddadansoddi tystiolaeth bresennol a newydd, dylai'r ymgynghorydd ddangos yr angen a'r galw am Calon, pwy y bydd yn ei wasanaethu, a sut y gall ddod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn ddiwylliannol. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad o'r farchnad, dadansoddiad cynulleidfa a defnyddwyr, ac ystyried y cyd-destun lleol a sector ehangach.

### 3.3 Gwerthusiad Opsiynau

Bydd yr ymgynghorydd yn archwilio ac yn asesu opsiynau ar gyfer datblygu a gweithredu Calon yn y dyfodol, gan gynnwys opsiynau safle ac adeiladau, modelau gweithredu a rhaglennu, y cydbwysedd rhwng gweithgarwch diwylliannol, cymunedol, creadigol a masnachol, partneriaethau cyflawni, camau gweithredu, cynhyrchu refeniw a chynaliadwyedd hirdymor. Dylai'r arfarniad nodi'r dull sy'n cefnogi gweledigaeth, hyfywedd a'r gallu i wireddu'r prosiect orau, gan gydnabod cadw Neuadd y Gweithwyr fel ased treftadaeth allweddol sydd mewn perygl.

### 3.4 Ymgysylltu â'r Gymuned a Chyd-gynhyrchu

Mae Calon yn brosiect a arweinir gan y gymuned, gyda Neuadd y Gweithwyr yn cael ei werthfawrogi am y cyfleoedd y mae'n eu creu i bobl Caerffili. Mae'r weledigaeth wedi'i llunio drwy ymgysylltu ac arweinyddiaeth leol, a bydd disgwyl i'r ymgynghorydd a benodir adeiladu ar y sylfaen hon, gan sicrhau bod safbwyntiau cymunedol amrywiol yn parhau i lywio datblygiad y prosiect wrth barchu'r perthnasoedd dibynadwy a sefydlwyd gan Cynefin Caerffili.

Fel rhan o'r cam datblygu hwn rydym wedi cymryd Y Banc yng nghanol y dref fel gofod prawf dros dro i archwilio'r syniadau rhaglennu creadigol, darparu lle i gwmnïau creadigol lleol ac i adeiladu ein cynulleidfaoedd.

### 3.5 Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Rydym yn chwilio am ddulliau ymarferol, cymesur sy'n cryfhau perfformiad amgylcheddol a gwytnwch y prosiect. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i ymgorffori egwyddorion economi gylchol trwy gydol y prosesau adeiladu, gweithredu a chaffael, wrth gydnabod y berthynas rhwng cynaliadwyedd, costau gweithredu, cyfleoedd cyllido yn y dyfodol a budd cyhoeddus ehangach. Rydym yn croesawu methodolegau amgen lle maent yn cryfhau'r canlyniad cyffredinol ac yn parhau i gyd-fynd â'r briff.

### 3.6 Cynhyrchu Achos Busnes

Bydd yr ymgynghorydd yn dwyn ynghyd ganfyddiadau ffrydiau gwaith datblygu'r prosiect i baratoi Achos Busnes cydlynol a seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Calon. Dylai'r Achos Busnes ddangos yr achos strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaethol ar gyfer y prosiect, gan ddarparu sail glir a chymhellol ar gyfer penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.

## 4. Y Disgwyliadau

Bydd yn ofynnol i'r Ymgynghorydd gynhyrchu Achos Busnes terfynol sy'n addas i'w gyflwyno i ddarpar gyllidwyr, gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ochr yn ochr â deunyddiau ategol.

Dylai'r Achos Busnes cydymffurfio'n fras â Model Pum Achos Trysorlys y DU i Amlinellu Achos Busnes cyfatebol neu gynnig amgen i ffurfio sail cyllid pellach a datblygiad prosiectau a bydd yn cynnwys:

- **Achos Strategol:** Gweledigaeth Ddiwygiedig ac Amcanion Strategol sy'n adlewyrchu angen y gymuned a'r cyfle ar gyfer Calon, cydymffurfiaeth â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, anghenion cymunedol ac amcanion bwriedig.
- **Achos Economaidd:** Arfarniad opsiynau, tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull a ffafrir gan gynnwys cymharu cystadleuwyr, gwerth am arian a manteision cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ehangach.
- **Achos Masnachol:** Model cyflawni gan gynnwys trosolwg sefydliadol, trefniadau llywodraethol, partneriaethau, dull caffael a chamau gweithredu ar gyfer y prosiectau.
- **Achos Ariannol:** Gofynion cyfalaf a refeniw, cynhyrchiant incwm a rhagamcanion, strategaeth ariannu, modelu ariannol a chynaliadwyedd hirdymor.
- **Achos Rheolaethol:** Rhaglen Datblygu a Chyflawni, cofrestr risg, monitro a gwerthuso, llywodraethu a pharodrwydd gweithredol.

**Dylai allbynnau ychwanegol gynnwys:**

- Crynodeb Gweithredol sy'n addas ar gyfer aelodau'r Bwrdd, rhanddeiliaid a

chyllidwyr.

- Dogfen gryno Saesneg blaen hygyrch sy’n addas ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ehangach.
- Tystiolaeth ategol ac atodiadau technegol, gan gynnwys canfyddiadau ymgynghori, ymchwil i'r farchnad, rhagdybiaethau ariannol a modelu.
- Deunyddiau cyflwyno a phresenoldeb mewn cyfarfodydd gyda Cynefin a rhanddeiliaid allweddol, yn ôl yr angen.
- Casgliadau ac Argymhellion.

Dylai'r Achos Busnes ymgorffori ystyriaethau perthnasol gan gynnwys yr iaith Gymraeg, cynaliadwyedd amgylcheddol, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, manteision cymunedol, effeithiau economi greadigol, asesu risg a mesurau llwyddiant.

# 5. Gofynion ar gyfer Ymgynghorwyr a Dull Gweithredu




Ffotograffiaeth: S Mark Gubb

Rydym yn chwilio am ymgynghorydd neu dîm ymgynghorol sy'n gallu cyfuno arbenigedd strategol, profiad ymarferol a dealltwriaeth wirioneddol o ddatblygiad diwylliannol a arweinir gan y gymuned.

Rydyn ni'n chwilio am dîm sy'n gallu dangos:

- Profiad o achosion busnes diwylliannol, treftadaeth neu adfywio.
- Sgiliau cryf o safbwynt ymgysylltu a chyd-gynhyrchu gyda'r gymuned.
- Dealltwriaeth o bolisi a chyllid yng Nghymru, cynaliadwyedd amgylcheddol, tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Y gallu i gydbwyso realaeth fasnachol ag uchelgais gymunedol.
- Cyfathrebu clir ar gyfer cynulleidfaoedd technegol a chyhoeddus.

Nid ydym yn chwilio am ddull "oddi ar y silff". Bydd angen i'r ymgynghorydd llwyddiannus ddeall cyd-destun unigryw Caerffili a helpu llunio cynnig sy'n ddilys i'r dref, ei chymunedau a'i huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

# 6. Trefniadau Gwaith

Bydd yr ymgynghorydd a benodir yn gweithio'n agos gyda Cynefin Caerffili drwy gydol y comisiwn i sicrhau bod yr Achos Busnes yn adlewyrchu gweledigaeth y prosiect, y dystiolaeth a gasglwyd a blaenoriaethau rhanddeiliaid.

Byddwch yn cael cyfle i gysylltu â'r gwaith y mae Cynefin yn ei wneud yn Y Banc, y 'gofod dros dro' yng nghanol y dref sy'n gweithredu fel prawf ar gyfer â rhaglennu ag ymgysylltu cymunedol.

### 6.1 Gweithgor y Prosiect

Bydd Gweithgor Prosiect yn goruchwylio'r comisiwn.

Byddwch yn mynychu cyfarfodydd prosiect rheolaidd, yn darparu adroddiadau cynnydd misol ac yn gweithio ar y cyd â Cynefin, CBSC a phartneriaid prosiect.

Bydd y Gweithgor yn darparu arweiniad strategol, yn cefnogi mynediad at wybodaeth a rhanddeiliaid, ac yn helpu sicrhau bod y comisiwn yn symud ymlaen yn effeithiol.

### 6.2 Proses Adolygu a Chymeradwyo

Bydd allbynnau drafft yn cael eu hadolygu gan Cynefin Caerffili a Gweithgor y Prosiect.

Dylech ganiatáu amser o fewn y rhaglen ar gyfer:

- Adolygu dogfennau drafft.

- Adborth a thrafodaeth.
- Diwygiadau a mireinio.

Bydd angen cymeradwyaeth ffurfiol gan Cynefin Caerffili a CBSC ar gyfer yr Achos Busnes terfynol.

Dylech gynnwys darpariaeth ar gyfer hyd at dair rownd o ddiwygiadau yn dilyn adborth.

### 6.3 Ymgysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC)

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn bartner strategol allweddol yn natblygiad Calon.

Bydd disgwyl i chi ymgysylltu â CBSC ar adegau priodol o'r comisiwn ac ystyried adborth a ddarperir drwy'r broses adolygu..

### 6.4 Rhaglen ac Adrodd

Bydd yr ymgynghorydd a Cynefin yn cytuno ar raglen gyflawni fanwl ar ddechrau'r comisiwn.

Bydd y rhaglen yn nodi:

- Camau allweddol y gwaith.
- Cerrig milltir ar gyfer adolygu a chyflawniadau.
- Gweithgaredd ymgysylltu.
- Dyddiadau cyflwyniadau drafft a therfynol.

Dylid rhoi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd i Cynefin Caerffili, gan dynnu sylw at:

- Gweithgaredd wedi'i gwblhau.
- Gwaith sydd i ddod.
- Risgiau neu heriau sy'n dod i'r amlwg.
- Unrhyw benderfyniadau sydd eu hangen.

## 7. Amserlen y Prosiect a Gofynion Cyflwyno

Yr amserlen a ragwelir ar gyfer y comisiwn yw:

| | |
|---|---|
| W/c 17/08/26 | Cyhoeddi'r briff |
| 31/08/26 | Dyddiad cau ar gyfer cwestiynau eglurhad |
| 14/09/26 | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno |
| 25/09/26 | Llunio rhestr fer |
| 05/10/26 | Cyfweliadau / Cyflwyniadau |
| 12/10/26 | Penodiad wedi'i gadarnhau |
| 12/10/26 | Cychwyn y Comisiwn |
| 29/01/27 | Achos Busnes Terfynol wedi'i gwblhau |

Dylai ymgeiswyr gyflwyno cynnig sy'n dangos eu dealltwriaeth o'r comisiwn a'u gallu i gyflwyno Achos Busnes o ansawdd uchel.

Mae'r tîm cleient yn agored i gynnwys cynigion ar gyfer meysydd gwaith neu ofynion nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr uchod er mwyn datblygu achos busnes cadarn sy'n addas ar gyfer sicrhau buddsoddiad pellach mewn prosiectau.

Gwahoddir ymgeiswyr i gyflwyno dull a methodoleg arfaethedig ar gyfer cyflawni'r comisiwn, gan gynnwys:

- Methodoleg a dull o ddarparu gwasanaethau;
- Rhaglen y prosiect a cherrig milltir allweddol;
- Tîm prosiect arfaethedig, rolau, a phrofiad perthnasol;
- Enghreifftiau o gomisiynau cyffelyb a phrofiadperthnasol;
- Cynnig ffioedd, amserlen talu a gwybodaeth am brisiau.

Dylid anfon cyflwyniadau at info@cynefincaerffili.org

Cynhwyswch **"Cyflwyniad Achos Busnes Calon"** yn llinell bwnc yr e-bost.

**Y dyddiad cau ar gyfer cwestiynau eglurhad yw 31 Awst 2026.**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y briff neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn cyflwyno cynnig, cysylltwch ag :info@cynefincaerffili.org

# 8. Proses Asesu

Bydd cyflwyniadau yn cael eu hasesu gan ddefnyddio pwysoli ansawdd a chost:

**Ansawdd a methodoleg dechnegol - 60%**

**Cost - 40%**

Bydd yr asesiad ansawdd yn ystyried:

- Dealltwriaeth o'r briff.
- Methodoleg arfaethedig.
- Profiad perthnasol.
- Sgiliau a gallu'r tîm.
- Ansawdd prosiectau cyffelyb.
- Gwerth am arian a thryloywder costau.
- Dull rheoli risgiau a heriau.

Gall ymgynghorwyr sydd ar y rhestr fer gael eu gwahodd i fynychu cyfweliad neu sesiwn gyflwyno i drafod eu cynnig ac ateb cwestiynau gan y panel gwerthuso.

Bydd y panel gwerthuso yn cynnwys cynrychiolwyr o Cynefin Caerffili a gall gynnwys cynrychiolwyr o bartneriaid strategol, gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, lle bo hynny'n briodol.

Bydd Cynefin Caerffili yn gofyn am eglurhad gan gynigwyr yn ôl yr angen yn ystod y broses asesu. Mae Cynefin yn cadw'r hawl i beidio â gwneud apwyntiad.

Wrth wneud cyflwyniad, mae'r ymgeiswyr yn cydnabod bod cyflwyniadau yn cael eu paratoi ar eu cost eu hunain ac nad yw Cynefin yn gyfrifol am unrhyw gost o ddatblygu cyflwyniadau tendr o dan unrhyw amgylchiadau.

**Rydym yn chwilio am bartner yn hytrach na chyflenwr yn unig.**

Gwyddom nad oes un ffordd 'gywir' o weithredu’r comisiwn hwn. Mae'n ymwneud â mwy na chynhyrchu Achos Busnes. Mae'n ymwneud â helpu llunio cynllun sydd wedi'i chreu gyda phobl Caerffili ac sydd ar eu cyfer hwy. Os ydych chi'n gyffrous am y cyfle i gyfuno gwaith dansoddi trylwyr gyda chreadigrwydd, cydweithredu ac effaith gymunedol, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

